EDC 03-01(p5)

**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD, 14 CHWEFROR 2001**

**Y DIWEDDARAF AM Y RHAGLENNI CRONFEYDD STRWYTHUROL EWROPEAIDD**

**Amcan 1**

Ar y 5 Chwefror, cyfarfu Pwyllgor Monitro Rhaglen Amcan Un i gwblhau’r busnes oedd yn weddill o’r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd fis Rhagfyr. Yn nhrafodaethau’r cyfarfod tynnwyd sylw at y pwyntiau canlynol:

- Mae aelodau’r Grp Polisi bellach wedi cael eu penodi;
- Byddai aelodau’r Partneriaethau Strategaeth hefyd yn cael eu dewis gan is-grp o Bwyllgor Monitro’r Rhaglen, fydd wedi cael ei roi ar waith erbyn mis Mawrth;
- Cafodd y boblogaeth oedd yn weddill a heb ei dyrannu o dan Flaenoriaeth 3 eu dyrannu i ward St James ym mwrdeistref sirol Caerffili.
- Mewn egwyddor, byddai aelodau’r bartneriaeth o’r sectorau preifat a gwirfoddol yn gymwys i dderbyn treuliau teithio a chynhaliaeth dan nawdd Cymorth Technegol, ond byddai’n rhaid i’r cyrff arwain ddarparu arian cyfatebol.

Ar 9 Chwefror, roedd cyfanswm o 88 prosiect wedi cael eu cymeradwyo gyda chymorth £72.5 miliwn o’r Cronfeydd Strwythurol. Bydd rhestr o brosiectau cymeradwy fydd yn dangos arian cyfatebol yn cael ei darparu ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor: mae’r rhestr ddiweddaraf (nad yw’n dangos arian cyfatebol) ar gael ar wefan WEFO.

Mae’r Ddogfen Raglennu Sengl yn dangos proffil ar gyfer ymrwymiadau y mae’n rhaid eu gwario cyn pen dwy flynedd o ddiwedd pob blwyddyn galendr. Rhagwelir y bydd £22 miliwn yn cael eu gwario o dan ERDF erbyn diwedd mis Mawrth 2001. Mae WEFO eisoes wedi derbyn tua £54 miliwn ymlaen llaw o’r Comisiwn Ewropeaidd, sy’n sgorio yn erbyn y targedau gwariant.

Mae argymhellion y Grp Gorchwyl a Gorffen, oedd yn adrodd i gyfarfod mis Rhagfyr o Bwyllgor Monitro’r Rhaglen wedi cael eu dwyn ymlaen gan yr is-grp gweithredu, ac erbyn hyn y Grp Polisi. Aelodau’r Grp Polisi, a ddewiswyd gan is-bwyllgor o Bwyllgor Monitro’r Rhaglen yw:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hilary Davies | Siambr Fasnach Gorllewin Cymru | Neville Davies | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Graham Benfield | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | Bill Goldsworthy | Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Damien O'Brien | Is-adran Materion Ewropeaidd | Sheila Potter | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Grenville Jackson | TEC Canolbarth Cymru/CETW (o 1/4) | Michael Lawley | Cooke Arkwright |
| Lynne Thomas | Antur Teifi | | |

Cafodd cyfarfod cyntaf y Grp Polisi ei gadeirio gan Christine Chapman AC a chynhaliwyd yr ail gyfarfod ar 12 Chwefror.

**Amcan 2**

Ar 19 Chwefror, cytunodd Pwyllgor ERDF y Comisiwn ar Ddogfen Raglennu Sengl Amcan 2. Caiff ei llofnodi'n ffurfiol gan y Comisiynydd Barnier yn ddiweddarach y mis hwn heb unrhyw newidiadau pellach. Byddaf yn cyhoeddi enwau'r sawl a benodir i Bwyllgor newydd Monitro'r Rhaglen cyn bo hir ac rwyf yn disgwyl y bydd yn cynnal ei gyfarfod cyntaf yn ystod yr wythnosau nesaf. Ar Bwyllgor Monitro'r Rhaglen bydd cynrychiolaeth gyfartal o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, ar sail "trydedd rhan o dair".

Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar Ddogfen Ategol y Rhaglen ac rwyf yn disgwyl y bydd drafft llawn ar gael yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Monitro.

Bydd cyfarfod cyntaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglen hefyd yn gyfle i drafod y trefniadau arfaethedig ar gyfer gweithredu'r rhaglen a ddatblygwyd gan Bartneriaeth Dwyrain Cymru, swyddogion y Cynulliad a WEFO.

Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd y rhaglen yn dechrau'n swyddogol ym mis Ebrill pan fydd y Pwyllgor Monitro wedi cael cyfle i drafod Dogfen Ategol y Rhaglen yn llawn cyn ei chymeradwyo'n derfynol.

**Amcan 3**

Mae'r rownd gyntaf o geisiadau (rownd mis Medi) wedi cael ei harfarnu. Mae'r holl ymgeiswyr wedi cael eu hysbysu am statws eu cais. Ar 9 Chwefror, roedd cyfanswm o 93 o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo gyda chyllid ESF o £10.9 miliwn. Mae 42 o brosiectau eraill a fethodd â chwrdd â'r trothwy o ran ansawdd wedi cael eu gwella ac mae'r ceisiadau diwygiedig yn aros i gael eu dilysu gan yr Adran Addysg a Chyflogaeth yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 12 Chwefror. Bydd WEFO yn cyhoeddi enwau'r rhai a gymeradwywyd cyn gynted ag y mae'r gwaith dilysu wedi'i gwblhau.

Mae ail rownd o geisiadau ar y gweill. Bydd angen i'r prosiectau gael eu hymgorffori mewn cynllun gweithredu cymeradwy a chael eu cefnogi gan y Bartneriaeth berthnasol. Cyn cwblhau'r ffurflenni

cais llawn gofynnir i ymgeiswyr gwblhau profforma. Mae panelau sgorio, sy’n cynnwys aelodau o’r Partneriaethau, wedi bod yn arfarnu ac yn blaenoriaethu’r profformas a ddaeth i law. Cafodd pob un o aelodau’r panelau sgorio hyfforddiant perthnasol yn y broses arfarnu oddi wrth WEFO.

Mae Cynlluniau Gweithredu wedi cael eu cyflwyno gan Bartneriaethau Amcan 3 ac maent wrthi’n cael eu hasesu. Mae WEFO yn disgwyl y bydd wedi cymeradwyo’r cynlluniau erbyn 16eg Chwefror.

Cynlluniwyd y camau nesaf fel a ganlyn:

- **16-23 Chwefror** Y partneriaethau yn cwrdd i ystyried canlyniadau’r panelau sgorio ac i flaenoriaethu’r prosiectau yn erbyn y Cynlluniau Gweithredu Rhanbarthol/Lleol perthnasol.
- **23 Chwefror** Y partneriaethau yn cyflwyno eu rhestr o brosiectau yn nhrefn blaenoriaeth i WEFO. Y partneriaethau yn hysbysu ymgeiswyr y prosiectau yn unol â’r hyn a benderfynwyd (gan gynnwys rhoi cyngor ar y trefniadau apelio)
- **2 Mawrth** WEFO yn rhyddhau ffurflenni cais llawn i brosiectau y mae’r partneriaethau wedi argymell y dylid cymeradwyo eu ceisiadau.
- **12 Mawrth** Cyfarfod Pwyllgor Monitro Rhaglen Amcan 3
- **16 Mawrth** Anfon ceisiadau llawn i WEFO
- **19 Mawrth – 6 Ebrill** WEFO yn cynnal y broses sgorio, cymhwysedd etc
- **Wythnos sy’n dechrau 9 Ebrill** WEFO yn cyhoeddi’r prosiectau a gafodd gymeradwyaeth ar ôl i’r Adran Addysg a Chyflogaeth ddilysu’r ceisiadau.

Mae gan bob Partneriaeth ddyraniadau ariannol dangosol ar gyfer pob Blaenoriaeth a Mesur hyd at fis Rhagfyr 2002.